# ATODIAD 1

## Rhan B Fframwaith Eithriad Tendr

### i. Cost/budd

| | |
|---|---|
| Nodwch y gost ddisgwyliedig o dendro neu gael dyfynbrisiau i'r gwasanaethau sydd eu hangen. | £2444* |
| Nodwch y costau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â newid contractwr ar gyfer y gwasanaethau sydd eu hangen. | £504** |
| Nodwch uchafswm yr amcangyfrif o arbedion cost posibl sy'n debygol o gael eu gwneud yn sgil tendro neu gael prisiau i'r gwasanaethau hyn. | Dim*** |

Amlinellwch y rhagdybiaethau a'r fethodoleg y tu ôl i uchafswm yr amcangyfrif o arbedion cost posibl a nodwyd uchod (e.e. arbedion cost ar gyfartaledd a gafwyd gan nifer o dendrau neu brisiau diweddar y gallwch eu cymharu â nhw)

*Amcan o'r amser a gymerir i gynnal tendr OJEU:

- Cynllunio
- Datblygu'r Fanyleb
- Rheoli hysbysiadau/ceisiadau am becyn tendro
- Holiadur Cyn-Gymhwyso / Achredu Darparwr
- Cymorth Gweinyddol cyffredinol, e.e. llun-gopïo
- Amcan o gost staff heb fod yn SP (lefel rheolwr) yn mynychu'r panel gwerthuso

** Amcan o'r amser a gymerir i reoli trosglwyddo i ddarparwr newydd:

- Yr amser i roi'r prosesau gweinyddol yn eu lle
- Cyfarfodydd Rheoli Contract
- Cyfarfodydd Prawf
- Cyfarfod Dyfarnu'r Contract

*** Yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y cais llwyddiannus a'r dyraniad cyllideb pan dendrwyd y prosiect hwn (2010). Ni fu unrhyw newidiadau yn y farchnad i awgrymu y byddem yn debyg o wneud arbedion pellach pe baem yn tendro'r prosiect hwn eto.

### ii. Manyleb y Contract

Ydi manyleb y contract newydd yn wahanol i'r un ar gyfer y contract presennol? Ydi ✓ Nac ydi ☐

Os ydi, rhowch fanylion llawn a rhesymau isod.

Mae'r fanyleb yn wahanol i'r contract presennol.
Integreiddiwyd y strwythur blaenorol o bedwar lot ar wahân (is-brosiectau) o fewn y contract yn un strwythur er mwyn gwella effeithlonrwydd a hyblygrwydd a symleiddio monitro perfformiad.
Gostyngwyd yr isafswm nifer staff o 9 i 8.25 (-8%). Arhosodd isafswm nifer y defnyddwyr gwasanaeth yr un fath. Mae disgrifiad y prosiect, y nodau a'r deilliannau, y llwybrau cyfeirio a'r gofynion cyflenwi yn aros yr un fath fel arall.

### iii Telerau ac amodau

Ydi telerau ac amodau'r contract newydd yn wahanol i rai'r contract blaenorol? Ydyn ☐ Nac ydyn ✓

Os ydyn, rhowch fanylion llawn a rhesymau isod.

| |
|---|
| Ni fydd telerau ac amodau'r contract yn wahanol iawn i rai'r contract newydd. Roedd angen rhai newidiadau er mwyn adlewyrchu Canllawiau'r Grant Cefnogi Pobl a gyhoeddwyd ym mis Awst 2012. Nid yw'r rhain yn newid math neu gost y gwasanaeth a ddarperir. |

**iv Gwerth y Contract**

Ydi gwerth blynyddol y contract newydd yn wahanol i werth y contract presennol? Ydi ✓ Nac ydi ☐

Os felly, rhowch y manylion llawn isod:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth blynyddol presennol: | £265,364 | | | | |
| Gwerth bl. newydd: | £238,828 | Amrywiad: | £26,536 | Canran: | -10% |

Os yw'r amrywiad yn fwy na **+10%?** rhowch y rhesymau isod.

| |
|---|
| Gostyngwyd gwerth blynyddol y contract yn dilyn negydu gyda'r darparwr gwasanaeth presennol. |

**v. Tendr/dyfynbris blaenorol**

A gafodd y gwasanaethau sydd eu hangen eu tendro o'r blaen neu a oeddent yn destun dyfynbrisiau cystadleuol? Do ✓ Naddo ☐

Os felly, a oedd hyn yn fwy na deng mlynedd cyn diwedd y contract presennol? Oedd ☐ Nac oedd ✓

Os oedd, rhowch fanylion llawn a rhesymau isod.

| |
|---|
| Cafwyd cytundeb GIFT ei dendro yn 2010. Derbyniwyd tri chais. Gwerthuswyd y ceisiadau a chadarnhawyd mai Wallich oedd yr ymgeisydd llwyddiannus. |

**vi Eithriad blaenorol**

A yw contract(au) blaenorol am y gwasanaethau sydd eu hangen wedi cael eu heithrio o'r gofyniad i gael dyfynbrisiau neu dendr? Do ☐ Naddo ✓

Os felly, ar sawl achlysur gwahanol y gwnaed eithriad?

Rhowch fanylion llawn a rhesymau isod.

| |
|---|
| Ni chafodd contract am y prosiect hwn erioed ei eithrio o'r gofyniad i dendro. |

**vi Perfformiad y contractwr**

Ydi perfformiad y contractwr presennol wedi cael ei fonitro yn erbyn y contract presennol? Do ✓ Naddo ☐

Rhowch sgôr i berfformiad cyffredinol y contractwr presennol o 0-10: **6**

*(0 = methu â chyflenwi'r gwasanaethau a gontractiwyd 5 = boddhaol 10 = perfformiad ardderchog)*

Rhowch fanylion llawn y perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol isod.

| |
|---|
| Mae'r prosiect wedi cyflwyno datganiadau monitro perfformiad chwarterol yn gyson sy'n dangos cydymffurfiaeth contract llwyr o safbwynt y gymhareb staff i gleient ac unedau gwag. Yn 2012-13 adroddodd y prosiect 3% o unedau gwag; roedd hyn yn gyffyrddus o fewn yr uchafswm o 10% a ganiateir.<br><br>Yn 2012-13 adroddodd y prosiect ddiffyg cyffredinol o 2% mewn oriau cymorth oherwydd methiant i lenwi dros absenoldeb staff. Arweiniodd hyn at adfachu cyllid yn dod i gyfanswm o £3,977.<br><br>Yn Chwarter 1 2013-14, adroddodd y prosiect 4% unedau gwag a 3% diffyg cyffredinol cyflenwi gwasanaeth. |

Adolygwyd y prosiect yn Mai a Mehefin 2013. “Mae’r prosiect wedi cynhyrchu deilliannau da i’r defnyddwyr gwasanaeth. Mae’n amlwg fod galw am y gwasanaeth a’i fod yn bodloni ac yn plethu i mewn i nodau a chynlluniau strategol lleol a chenedlaethol. Roedd yr adborth gan staff, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Drwyddi draw mae’n gwneud yn dda mewn sicrhau cyfranogiad, diogelu a galluogi drwy wahanol ddulliau gwasanaeth a all ac sydd yn cyflawni deilliannau. Mae ganddo ddealltwriaeth dda o anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, mae’n rhoi’r defnyddwyr gwasanaeth yn y canol ac yn eu grymuso i gymryd perchnogaeth o’r hyn y maent am ei gael o’r gwasanaeth."

Sylwer: canfu’r adolygiad nad oedd y darparwr wedi hyrwyddo’n ddigonol na gweithredu’r gwasanaeth ar-alwad a bennwyd yn y cytundeb ar gyfer lefel Uchel GIFT y prosiect (8 lle i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion lefel uchel).

**vi Ansawdd y gwasanaeth**

Ydi ansawdd y gwasanaethau sydd eu hangen fel ag y’u darparwyd gan y contractwr presennol o dan y contract presennol wedi’i asesu? Do ✓ Naddo ☐

Rhowch sgôr i ansawdd cyffredinol y gwasanaethau presennol o 0-10: 7

*(0 = cwbl annerbyniol 5 = boddhaol 10 = ansawdd ardderchog)*

Crynhowch yr asesiad ansawdd gwasanaeth isod (yn cynnwys y deilliannau a gafwyd).

Canfu’r adolygiad gwasanaeth yn Ebrill a Mai 2013 fod y prosiect yn cynnig gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel.

**ix Gwerth am arian**

A sicrhawyd gwelliannau sylweddol mewn gwerth am arian yn ystod tymor y contract presennol? Do ☐ Naddo ✓

A fydd gwelliannau sylweddol o ran gwerth am arian yn cael eu sicrhau o dan delerau’r contract newydd? Bydd ✓ Na fydd ☐

Rhowch fanylion unrhyw welliannau mewn gwerth am arian o safbwynt manyleb y contract.

Ni chafwyd unrhyw bryderon am werth am arian yn yr adolygiad gwasanaeth

Rhowch fanylion unrhyw welliannau mewn gwerth am arian o safbwynt pris y contract.

Cytunwyd ar well gwerth am arian o safbwynt pris y contract gyda’r darparwr presennol. Gostyngir gwerth blynyddol y contract 10% (£26,536) o £265,364 i £238,828 y flwyddyn.

Rhowch fanylion unrhyw welliannau mewn gwerth am arian o safbwynt ansawdd y gwasanaeth.

Dim. Dangosodd yr adolygiad gwasanaeth fod y gwasanaeth o ansawdd uchel.

**x. Llety**

A oes angen cyflenwi’r gwasanaethau sydd eu hangen mewn llety penodol? Oes ☐ Nac oes ✓

A oes risg sylweddol y byddai newid contractwr yn arwain at golli’r llety hwnnw? Oes ☐ Nac oes ✓

Rhowch fanylion llawn a rhesymau isod.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pe bai'r llety presennol yn cael ei golli, a oes risg sylweddol na fyddai llety arall yn cael ei sicrhau o fewn amserlen resymol ac ymarferol? Rhowch fanylion llawn a rhesymau isod. | Oes | ☐ | Nac oes | ✓ |

| |
|---|
| |

**xi Y Defnyddiwr / Defnyddwyr gwasanaeth**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw hi'n rhesymol tybio y byddai cael dyfynbrisiau neu dendro yn arwain at drallod sylweddol neu niwed arall i les y defnyddiwr/defnyddwyr gwasanaeth neu y byddai'n gwrthdroi neu'n tanseilio'r deilliannau llwyddiannus a gafwyd? Rhowch fanylion llawn a rhesymau isod. | Ydi | ☐ | Nac ydi | ✓ |

| |
|---|
| Dim arwyddion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw hi'n rhesymol tybio y byddai newid contractwr yn arwain at drallod sylweddol neu niwed arall i les y defnyddiwr/defnyddwyr gwasanaeth neu y byddai'n gwrthdroi neu'n tanseilio'r deilliannau llwyddiannus a gafwyd? Rhowch fanylion llawn a rhesymau isod. | Yes | ☐ | No | ✓ |

| |
|---|
| Dim arwyddion |

**xi Ystyriaethau eraill**

Os oes unrhyw ffactorau perthnasol eraill y mae angen eu hystyried, rhowch fanylion llawn a rhesymau isod.
e.e. barn y defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu heffeithio, sefyllfa unrhyw gyd gyllidwyr, ystyried rhanddeiliaid eraill, asesiad a gwybodaeth am y farchnad gyfredol/hanesyddol, ystyried Cymorth Gwladwriaethol, manylion cydymffurfio â chanllawiau perthnasol os yn briodol (e.e. gan Lywodraeth Cymru, Gwerth Cymru ayb.)

| |
|---|
| Dim |